



CREATIVITY IN THE UK

**COFNODION CYFARFOD EITHRIADOL BWRDD FESTIVAL 2022 LTD TRWY
GYNHADLEDD FIDEO DDYDD GWENER 29 EBRILL 2022, 16:00 – 17:00**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Presennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE
Faraz Tasnim
Dr. Hayaatun Sillem CBE
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE
Roger Lewis
Liam Hannaway
Dr. Bridget McConnell CBE

Cadeirydd y Bwrdd, Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli yr Alban

Arsyllwyr yn Bresennol:

Nicola Hewer

Llywodraeth y DU, Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol,
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")

Yn bresennol:

Martin Green CBE
Phil Batty
Ian Reid
Caroline McGrory
David Grady
Bea Hendry
Hilary O'Shaughnessy
Sarah Tromans
Lucy Bailey
Laura O'Flynn

Prif Swyddog Creadigol
Cyfarwyddwr Gweithredol
Prif Swyddog Gweithredol
Prif Swyddog Cyfreithiol
Prif Swyddog Ariannol
Pennaeth Rhaglenni
Cyfarwyddwr Comisiynu
Pennaeth Rheoli Cyllid
Uwch Gwnsler Cyfreithiol
Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

47/22 Croeso, ymddiheuriadau am absenoldeb a datgan buddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ar gyfer cyfarfod eithriadol a oedd wedi'i neilltuo i dderbyn diweddariad ar SEE MONSTER a GALWAD er mwyn i'r Bwrdd roi cyfeiriad strategol i'r Tîm Gweithredol.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis, Rob Smith, yr Athro Andrew Thompson, Roger Mosey a Priya Lakhani, ynghyd ag Emma Squire, Gerwyn Evans, Richard Walsh a Louise Hyland.

Atgoffodd y Cadeirydd o'i datganiad o fuddiant mewn perthynas â GALWAD a dywedodd y byddai'n gadael yn ystod y rhan honno o'r cyfarfod, a byddai HS yn Cadeirio gyda chymorth gan FT gan fod y pwyslais ar gyllideb wrth gefn.

48/22 Diweddariad SEE MONSTER

Roedd PB wedi dosbarthu papur i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am yr her rheoli gwastraff a chymerwyd bod hwn wedi'i ddarllen.

Pwysleisiodd PB yn benodol y meysydd allweddol lle'r oedd her yn cyflwyno ei hun a tynnodd sylw at y rhyngddibyniaethau rhyngddynt:

- 1) Sefyllfa reoleiddiol Arolygiaeth yr Amgylchedd Dynol a Thrafnidiaeth yn yr Iseldiroedd / Inspectie Leefomgeving en Transport (ILT)
- 2) Asiantaeth yr Amgylchedd yn y DU (EA) yn sefyllfa reoleiddiol y DU
- 3) Y gofyniad am swydd orfodi leol yn Weston-Super-Mare

Dyweddodd PB fod NS mewn deialog ag UNBOXED wedi cyhoeddi hysbysiad o oedi i'r cyflenwr cludo sy'n gyfrifol am gludo'r strwythur. Pan fo trwydded ar waith, bydd angen i'r tîm ail-alinio symudiad y rig gyda seilwaith galw uchel yn seiliedig ar symudiadau llanw a thywydd.

Rhoddodd PB drosolwg o'r risgiau allweddol.

Agorodd y Cadeirydd i'w drafod ac ystyriodd y Bwrdd y pwyntiau canlynol:

- Gwireddu buddion o dan amserlen wedi'i hoedi a hyfywedd y prosiect. Amlinellodd y Tîm Gweithredol eu cefnogaeth i amserlen ddiwygiedig a rôl SEE MONSTER yng nghyd-destun y Rhaglen UNBOXED.
- Amserlenni rheoleiddwyr a'r gallu i bennu llwybr critigol credadwy. Amlinellodd PB fod UNBOXED ac NS wedi derbyn cyngor cyfreithiol allanol gan arbenigwyr yn y maes hwn, gan gydweithio â DEFRA. Mae hyn wedi llywio'r tybiaethau cynllunio diwygiedig.
- Rheolaeth ariannol y prosiect yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod risg ariannol yn cael ei rheoli'n briodol.
- Natur y rheolyddion fel asiantaethau annibynnol. Amlinellodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod cefnogaeth ar draws Whitehall i'r prosiect a'r gweithgor sy'n cynorthwyo.

Rhoddodd y Bwrdd ei gefnogaeth i'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu'r senario oedi i amserlen strwythuredig sy'n nodi'n glir lwybr hanfodol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gyda sicrwydd a goruchwyliaeth risg gan ARAC a'r Bwrdd Gweithredol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a diolchodd yn arbennig i DCMS am eu holl gefnogaeth a gofynnodd i NH anfon hyn ymlaen at gydweithwyr.

CAM GWEITHREDU: Y Tîm Gweithredol i ddarparu llwybr critigol, asesiad fforddiadwyedd a phwyntiau adolygu allweddol ar gyfer y cyfnod interim hwn.

Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod.

49/22 Diweddariad GALWAD

Cymerodd y Dirprwy Gadeirydd, HS, fod y papur wedi'i ddarllen a nododd fod yr eitem hon yn benodol i'r cynnydd mewn costau ac felly trosglwyddodd i Gadeirydd ARAC, FT.

Atgoffodd FT fod risg wedi bod ynghylch GALWAD i sicrhau cyrhaeddiad, amseriad a chau'r rhaglen drosfwaol. Yn wreiddiol, roedd ganddi gyllideb wrth gefn o £0.5M ynghlwm wrthi. Mae'r ARAC yn dal i fod yn gyfforddus gyda hyn, fodd bynnag, yng ngoleuni'r trafodaethau cynharach, byddai ARAC yn dymuno cwblhau dadansoddiad llawn o effaith costau'r Rhaglen UNBOXED gyffredinol ac amlinellodd nad yw'n seiliedig ar y ddau brosiect a drafodwyd heddiw yn unig.

Amlinellodd PB y byddai prosiect GALWAD yn dod yn brosiect wedi'i gyd-gomisiynu rhwng Cymru Greadigol (ar ran Llywodraeth Cymru) ac UNBOXED (ar ran Llywodraeth y DU) a cyfeiriodd at yr achos strategol sydd wedi'i gynnwys yn y papur. Mae pwysau amser sylweddol felly byddai angen penderfyniad yr wythnos nesaf wrth aros am adolygiad ARAC. Cydnabu RL ei rôl fel cynrychiolydd Cymru ar y bwrdd ac ategodd y cyfyngiadau ar yr amserlen.

Agorodd HS i'w drafod ac i gymryd cwestiynau'r Bwrdd.

- Diolchodd NH am yr wybodaeth a ddarparwyd. Mae DCMS yn adolygu'r cais am ryddhad ariannol wrth gefn ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu arian. Teimlai NH y byddai'r prosiect hwn yn creu cyrhaeddiad i gynulleidfa ehangach yn y DU.
- Cadarnhaodd PB fod pob un o'r 10 prosiect yn cynnwys brand y pedwar Cyllidwyr.
- Gofynnodd NH am ddiben trafodaeth y Bwrdd o ystyried bod yn rhaid i ARAC gwblhau dadansoddiad cost. Dywedodd HS ei fod i wirio lefel cymeradwyaeth y Bwrdd i'r achos strategol.
- Mae gwerth amrywio contract GALWAD o fewn terfynau dirprwyedig y Bwrdd Gweithredol ond daeth i'r Bwrdd oherwydd yr achos strategol ac mae bellach yn symud ymlaen i ARAC i ystyried fforddiadwyedd ar drefniadau wrth gefn y rhaglen.
- Dywedodd RL fod Gerwyn Evans a'r tîm wedi cyfarfod â'r Gweinidog i gyflwyno'r sesiwn frifio GALWAD, ac roedd Llywodraeth Cymru yn gefnogol.
- Cadarnhawyd nad oedd unrhyw risgiau hysbys eraill yn ymwneud â GALWAD ar hyn o bryd.

Crynhodd HS fod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r achos strategol, ond roedd yn cydnabod ei bod yn ofynnol i'r ARAC graffu ar gostau ar y rhaglen UNBOXED, a byddai angen y cymeradwyaethau wrth gefn perthnasol.

Myfyrdodau a sylwadau cloi

Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i bawb.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr Bwrdd
Arsyllwyr Bwrdd
Tîm Rheoli Gweithredol



CREATIVITY IN THE UK

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd:	16 Mehefin 2022
Dyddiad dychwelyd i'r Gweinyddwr:	16 Mehefin 2022
Dyddiad dosbarthu:	22 Mehefin 2022